

## Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel

### Amodau Gorchwyl y Grŵp Trosolwg (DRAFFT)

#### Diben

Mae'r Grŵp Trosolwg *Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel* wedi cael ei sefydlu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant. Grŵp Tasg a Gorffen ydyw a bydd yn cwblhau ei waith erbyn mis Tachwedd 2017.

Diben y grŵp yw sicrhau bod adolygiad safonol yn seiliedig ar ymchwil yn cael ei gynnal yn dilyn cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru Diogelwch Cymunedol yng Nghymru<sup>1</sup>. Y bwriad yn rhannol fydd mynd i'r afael â materion a godwyd yn y ddogfen honno. Er hynny mae cylch gorchwyl yr adolygiad a'r grŵp yn ehangach na hynny a bydd yn edrych ar sut y gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i helpu i wneud ein cymunedau yn fwy diogel ac i ddatblygu gweledigaeth uchelgeisiol gytûn a fydd yn sail i sefydliadau weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd.

Bydd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru ag asiantaethau a phartneriaid allweddol eraill yn deall ac yn rhannu barn gyffredin ynglŷn â'u priodolau arwain, a thrwy gydweithio priodol gyda a thrwy'r amcanion llesiant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* yn cynorthwyo cymunedau i fod yn fwy diogel.

Bydd yr adolygiad yn defnyddio ac yn dibynnu ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, a adwaenir fel y Pum Ffordd o Weithio, i archwilio fframweithiau (gan gynnwys rhai deddfwriaethol a chyllidebu), strwythurau, polisiau a phrosesau gwasanaethau cyhoeddus presennol i sicrhau bod y canlynol yn digwydd:

- Integreiddio (e.e. dulliau prif-ffrydio, trawsbynciol, yn seiliedig ar le);
- Ffocws ar atal (e.e. buddsoddi mewn ymyriadau effeithiol ar adeg gynharach, buddsoddi i arbed);
- Cydlafurio (e.e. cyllidebau cyfunol, timau amlasiantaeth);
- Cynnwys dinasyddion ac ymgysylltu â hwy;
- Meddwl am y tymor hir (diogelu at y dyfodol).

#### Amodau Gorchwyl

Bydd yr adolygiad yn gwneud argymhellion ar gyfer:

- Pennu gweledigaeth strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru y yr holl sefydliadau sydd ynghlwm ei deall, ei rhannu ac adeiladu arni yn rhan o'u cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;

---

<sup>1</sup> <https://www.wao.gov.uk/cy/system/files/publications/Community-Safety-2016-Cymraeg.pdf>

- Deall, diffinio ac egluro'r ystod o randdeiliaid a'u rolau arwain, gan gynnwys rôl Llywodraeth Cymru, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Awdurdodau Lleol ac Adrannau Llywodraeth Prydain;
- Adlewyrchu'r eglurder newydd mewn perthynas ag arweinyddiaeth trwy liflinio a symleiddio'r trefniadau llywodraethu presennol er mwyn gwella atebolrwydd, gan ailbennu ffocws gweithgarwch er mwyn osgoi dyblygu a dryswch;
- Sicrhau bod y cyfan yn cael ei gyflawni yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen.

## Amcanion a chwmpas

Bydd y Grŵp Trosolwg yn llywio'r adolygiad *Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel* ac yn gwneud argymhellion yn seiliedig ar y canlynol:

- sicrhau bod dull cynaliadwy o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru yn cael ei ddatblygu trwy gasglu a dadansoddi tystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel ryngwladol ynghylch yr hyn sy'n gweithio;
- creu arweinyddiaeth sy'n gryfach, yn fwy effeithiol ac yn fwy atebol ymhlith pob asiantaeth a sefydliad;
- dull cynaliadwy o ariannu, darparu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth ar faterion diogelwch cymunedol gan gynnwys yr holl bartneriaid perthnasol sy'n sicrhau safonau ansawdd a chysondeb a chydaddoldeb gwasanaethau ledled Cymru er budd defnyddwyr gwasanaethau;
- cyflawni'r amcanion llesiant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen*;
- ymateb priodol a phwyllog i adroddiad ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru*.

Bydd yn ystyried y cyd-destun gwleidyddol a pholisi ehangach gan gynnwys:

- pwysau parhaus ar gyllid a chyni parhaus;
- deddfwriaeth y DU a Chymru, a pha un a oes angen diwygio pellach, gan gynnwys cyfleoedd sy'n deillio o Ddeddf Cymru 2017;
- polisiau'r DU, er enghraifft diwygio carchardai a datblygiadau mewn cyfiawnder ieuencid a chydlyniant cymunedol ac o ran y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a.y.b.;
- y broses cynllunio sengl trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- y cyd-ddibyniaethau rhwng cyfrifoldebau datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli (gan gynnwys y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) a'r posibilrwydd o'u halinio'n well;
- cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol<sup>2</sup> ac yn arbennig darparu gwasanaethau yn rhanbarthol.

<sup>2</sup> [https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation\\_doc\\_files/170130-white-paper-cy.pdf](https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/170130-white-paper-cy.pdf)

## **Amodau gweithredu**

### **Trefniadau Dirprwyo**

Sefydlwyd y Grŵp Trosolwg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fel grŵp tasg a gorffen. Bydd yn adrodd ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion wrth Ysgrifennydd y Cabinet yn y lle cyntaf. Ni ddirprwywyd unrhyw awdurdod iddo ac nid oes cylch gorchwyl ganddo y tu hwnt i'r diben penodol ac am amser cyfyngedig.

### **Dull gweithredu**

Caiff y Grŵp Trosolwg ei gadeirio gan Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru.

Bydd cyfarfodydd yn digwydd yn fisol, er y gall fod achlysuron pan fydd angen cyfarfodydd amlach. Hefyd, mae'r grŵp yn gallu sefydlu is-grwpiau ar gyfer tasgau penodol. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Bydd y Grŵp Trosolwg yn cwrdd yn unol â'r amserlen sydd wedi'i hatodi.

Bydd y Grŵp Trosolwg yn ystyried uwchgyfeirio unrhyw faterion brys sy'n codi trwy eu cylchredeg trwy'r e-bost a sgwrs rithwir fel y bo angen.

Bydd agenda'r Grŵp Trosolwg yn cael ei chytuno ymlaen llaw trwy ei chylchredeg trwy'r e-bost a bydd yn cael ei chylchredeg i'r aelodau fan bellaf bum diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod.

Bydd agendâu, papurau a chofnodion yn cael eu cyhoeddi.

### **Monitro ac adrodd**

Bydd y Grŵp Trosolwg yn adrodd yn uniongyrchol wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

### **Aelodaeth**

Bydd aelodaeth y Grŵp Trosolwg yn cynnwys cynrychiolwyr o'r asiantaethau/rhwydweithiau canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru
- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru
- Prif Gwnstablaid Cymru
- Prif Swyddogion Tân Cymru
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS)
- Y Swyddfa Gartref
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Cyfiawnder Cymunedol Cymru
- Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru
- Iechyd

Mae manylion yr aelodau unigol sy'n cynrychioli'r asiantaethau/rhwydweithiau hyn i'w gweld yn **Atodiad B**.

Os nad yw aelod yn gallu mynychu un o gyfarfodydd y Grŵp Trosolwg bydd dirprwy'n cael ei dderbyn. Bydd angen i'r dirprwy fod ar reng ddigon uchel i gynrychioli ei briod asiantaeth neu rwydwaith yn briodol ac i wneud unrhyw benderfyniadau perthnasol ar ran yr asiantaeth neu rwydwaith.

Bydd disgwyl i aelodau weithredu fel y ddolen gyswllt rhwng y Grŵp Trosolwg a'u priod asiantaethau a rhwydweithiau, gan adrodd yn ôl wrth eu hasiantaethau, rhwydweithiau neu unrhyw grwpiau perthnasol eraill y maent yn aelodau ohonynt.

Bydd yr aelodaeth yn cael ei hadolygu yn dilyn tri chyfarfod heb fod yn bresennol.

### **Adolygiadau**

Bydd adolygiad cychwynnol o'r amodau gorchwyl hyn yn cael ei gynnal yn dilyn dau gyfarfod a bydd y Grŵp Trosolwg yn ystyried ei berfformiad neu ei effeithiolewydd yn unol â'r raddfa amser hon ac yn addasu ei amodau gorchwyl fel y bo angen yng ngoleuni'r ystyriaeth honno.

### **Cysylltiadau a dibyniaethau**

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn ystyried materion trawsbynciol sy'n ymwneud â materion cyfiawnder troseddol a allai gyffwrdd â materion diogelwch cymunedol hefyd. Yn ogystal, ceir ystod o grwpiau eraill sydd â buddiant a bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cytuno ar y drefn ar gyfer cylchredeg papurau a dogfennau i'r rhain fel y bo angen. Bydd yr holl ddeunydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

### **Cyfathrebu**

Bydd y Grŵp Trosolwg yn cylchredeg cofnodion o fewn 10 niwrnod gwaith i'r cyfarfod. Bydd pob aelod o'r Grŵp Trosolwg ar gael i gyfathrebu gyda'r asiantaeth, sefydliadau neu grwpiau y mae'n eu cynrychioli.

**Stephen Carr**  
**Llywodraeth Cymru**

**Chwefror 2017**

## Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel

## Aelodaeth a Manylion Cysylltu'r Grŵp Trosolwg

<b>Sefydliad</b>	<b>Enw(au)</b>
<b>Llywodraeth Cymru</b>	Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr (Llywodraeth Cymru)
	Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr (Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol)
	Stephen Carr, Arweinydd yr Adolygiad
<b>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi</b>	Ian Barrow, Dirprwy Gyfarwyddwr
<b>Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru</b>	Dusty Kennedy, Cyfarwyddwr a Darren Trollope, Pennaeth Strategaeth a Chynllunio
<b>Comisiynwyr Heddlu a Throseddu</b>	Alun Michael (De Cymru) a Dafydd Llywelyn (Dyfed Powys)
<b>Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu</b>	Mark Polin (Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru)
<b>Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân</b>	Chris Davies, Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
<b>Cyfiawnder Cymunedol Cymru</b>	Barbara Natasegara (cyd-gadeirydd) a Bernie Bowen Thompson (cyd-gadeirydd)
<b>Y Swyddfa Gartref</b>	Joanne Hopkins, Pennaeth Tîm Cymru
<b>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</b>	Geraint Davies, Arweinydd Datganoli
<b>CLILC</b>	Rachel Morgan, Swyddog Heddlu Diogelwch Cymunedol a Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
<b>SOLACE</b>	Gareth Chapman, Prif Weithredwr CBS Merthyr Tudful
<b>BILLau</b>	Conrad Eydmann, Pennaeth Partneriaeth, Strategaeth a Chomisiynu, BILI Caerdydd a'r Fro